Dyfarniad gan Weinidogion Cymru o dan adran 195 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

1. Mae hwn yn ddyfarniad ynghylch anghydfod rhwng ALl1 ac ALl2 mewn perthynas â phreswylfa arferol X.

Dogfennau

2. Mae'r cefndir ffeithiol y cytunwyd arno wedi'i nodi mewn datganiad a lofnodwyd gan y partïon, ac sy'n cynnwys cronoleg y cytunwyd arni.

3. Mae'r partïon hefyd yn dibynnu ar lythyrau a gyfnewidiwyd rhyngddynt ac ar asesiad integredig yn ymwneud ag X a gwblhawyd adeg yr atgyfeiriad ar 28 Awst 2024 (“yr Asesiad Integredig”).

4. Mae pob parti wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig, ac mae'r rhain yn cyd-fynd â chopïau o ddeddfwriaeth, cyfraith achosion a dyfarniad cynharach gan Weinidogion Cymru (dyddiedig 9 Chwefror 2021) y mae'r cyflwyniadau hynny'n cyfeirio ato.

Y ffeithiau

5. Ganed X ym mis Mehefin 1926. Mae'r partïon yn cytuno ar y canlynol: “*X appears to have the requisite capacity to decide where to live*”, ac mae'r Asesiad Integredig yn nodi, mewn ag X, “*there are no concerns around her capacity*”.

6. Hyd nes iddi gael ei derbyn i'r ysbyty ar 21 Rhagfyr 2022, roedd X yn byw yn ei heiddo ei hun yn Y yn sir ALl2. Mae'r eiddo ar y farchnad ar hyn o bryd i'w werthu.

7. Ar 21 Rhagfyr 2022, cododd mab X bryderon gydag ALl2 nad oedd ei fam yn ymdopi gartref. Cafodd X ei derbyn i'r ysbyty ar yr un diwrnod oherwydd cwymp.

8. Ar 9 Ionawr 2023 gwnaed atgyfeiriad o'r ysbyty i'r Gwasanaeth Gwell yn y Cartref am un alwad bob dydd i X.

9. Ar 26 Ionawr 2023, rhyddhawyd X o'r ysbyty i gartref preswyl Z (“y Cartref Gofal”) sydd wedi'i leoli yn ALl1. Roedd y lleoliad hwn wedi'i hunan-ariannu i ddechrau, ac mae'r awdurdodau'n cytuno bod y lleoliad wedi'i drefnu gan X a'i theulu.

10. Dywedodd ALl2 drwy e-bost dyddiedig 30 Medi 2024, ar ôl cael yr atgyfeiriad gan yr ysbyty i'r Gwasanaeth Gwell yn y Cartref dyddiedig 9 Ionawr 2023, nad oes ganddo unrhyw gofnodion pellach yn ymwneud ag X.  Mae wedi cadarnhau ymhellach nad oedd wedi cynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth cyn i X symud i'r Cartref Gofal.

11. Roedd ymgysylltiad hanesyddol ALl2 ag X yn cynnwys asesiad teleofal a gynhaliwyd gan y tîm synhwyraidd yn 2018 ac ymweliad cartref ar ôl derbyn atgyfeiriad synhwyraidd oddi wrth Specsavers yn 2021. Yn y ddau achos, caewyd yr achosion gan ALl2 pan nad oedd angen ymyrraeth bellach.

12. Ar 28 Awst 2024, cafodd ALl1 atgyfeiriad mewn perthynas ag X gan ei bod yn agosáu at y trothwy cymhwysedd ar gyfer cymorth ariannol i ddiwallu ei hanghenion gofal a chymorth. Daeth yr Asesiad Integredig a drefnwyd gan ALl1 adeg yr atgyfeiriad i'r casgliad bod ar X angen gofal 24 awr mewn lleoliad preswyl.

13. Ar 9 Medi 2024, gohebodd ALl1 ag ALl2 gan nodi nad oedd yn credu bod X yn preswylio'n arferol yn ALl1 ac mai ALl2 biau'r cyfrifoldeb dros ddiwallu'r anghenion ac unrhyw gyllid gofal ar gyfer X yn y dyfodol. Anghytunodd ALl2 â hyn mewn e-bost dyddiedig 30 Medi 2024.

Y mater i ddyfarnu arno

14. Y mater y mae'r ddau barti wedi gwahodd dyfarniad arno yw " *a yw'r ddarpariaeth 'dybio' yn Adran 194 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gymwys mewn perthynas ag X*".

15. Os yw'r ddarpariaeth dybio yn gymwys, bydd preswylfa arferol X yn ALl2 a bydd gan ALl2 gyfrifoldeb dros dalu ffioedd y Cartref Gofal pan fydd X yn bodloni'r trothwy angenrheidiol.

16. Os nad yw'r ddarpariaeth dybio yn gymwys, bydd X wedi caffael preswylfa arferol yn ardal ALl1 a bydd y cyfrifoldeb cyllido yn disgyn i ALl1.

Y gyfraith a chanllawiau

17. Mae adran 35 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn darparu:

***Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn***
*(1) Rhaid i awdurdod lleol ddiwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth os caiff ei fodloni bod amodau 1, 2 a 3 wedi eu cyflawni (ond gweler is-adran (6)).*

*(2) Amod 1 yw bod yr oedolyn—*

*(a) yn preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol, …*

*(3) Amod 2 yw—*

*(a) bod yr anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwystra, …*

*(4) Amod 3 yw—*

*(a) nad oes unrhyw ffi yn cael ei chodi am y gofal a'r cymorth y mae eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny, neu*

*(b) bod ffi yn cael ei chodi am y gofal a'r cymorth hwnnw ond—*

*(i) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni ar sail asesiad ariannol bod adnoddau ariannol yr oedolyn ar neu islaw'r terfyn ariannol,*

*(ii) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni ar sail asesiad ariannol bod adnoddau ariannol yr oedolyn uwchlaw'r terfyn ariannol ond bod yr oedolyn, serch hynny, yn gofyn i'r awdurdod ddiwallu ei anghenion, neu*

*(iii) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes gan yr oedolyn alluedd i drefnu ar gyfer darparu gofal a chymorth ac nad oes unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi i*

*wneud trefniadau o’r fath o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005neu sydd fel arall mewn sefyllfa i wneud hynny ar ran yr oedolyn.*

*(5) I gael ystyr “asesiad ariannol” a “terfyn ariannol” gweler Rhan 5.*

18. Mae adran 194 o Ddeddf 2014 yn cynnwys y ddarpariaeth dybio sy'n destun yr anghydfod hwn. Mae adran 194(1) yn darparu:

*Pan fo gan oedolyn anghenion am ofal a chymorth nad oes modd eu diwallu ond os yw’n byw mewn llety o fath a bennir mewn rheoliadau a bod yr oedolyn yn byw mewn llety yng Nghymru o fath a bennir felly, mae’r oedolyn i’w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel un sy’n preswylio fel arfer—*

*(a) yn yr ardal lle’r oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn iddo ddechrau byw mewn llety o fath a bennir yn y rheoliadau, …*

19. Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Preswylfa Arferol) (Llety Penodedig) (Cymru) 2015 (“y Rheoliadau Llety Penodedig”) yn cadarnhau bod “llety cartrefi gofal” yn llety penodedig at ddibenion y ddarpariaeth dybio.

20. Nid yw ystyr “preswylfa arferol” wedi'i diffinio o fewn Deddf 2014 ac nid oes unrhyw benderfyniad gan lys uwch yn ymwneud â'i ddiffiniad o dan ddeddfwriaeth Cymru. Er hynny, mae corff sylweddol o gyfraith achosion yn ymwneud â'r diffiniad o breswylfa arferol at ystod o ddibenion eraill.

21. Yr awdurdod arweiniol yw R (Shah) v London Borough of Barnet [1982] UKHL 14 a oedd yn ymwneud â'r defnydd o derm tebyg yng nghyd-destun mynediad at grantiau ar gyfer addysg bellach. Mynegodd yr Arglwydd Scarman ystyr " preswylio’n arferol" yn y termau canlynol:

"*Unless, therefore, it can be shown that the statutory framework or the legal context in which the words are used requires a different meaning, the term 'ordinarily resident' refers to a man's abode in a particular place or country which he has adopted voluntarily and for settled purposes as part of the regular order of his life for the time being, whether of short or long duration*" (“Prawf Shah”).

22. Wrth ystyried prawf Shah, pwysleisiodd yr Arglwydd Slynn yn Mohammed v London Borough of Hammersmith and Fulham [2001] UKHL 57 fod preswylfa arferol person yn golygu'r man lle y mae'n byw mewn gwirionedd, ac nad yw'n briodol ystyried a fyddai lle o'r fath yn cael ei ystyried yn breswylfa arferol neu normal mewn ystyr gyffredinol neu haniaethol (ym mharagraff 18). Meddai'r Arglwydd Slynn:

“. *so long as that place where he eats and sleeps is voluntary accepted by him, the reason why he is there rather than somewhere else does not prevent that place from being his normal residence. He may not like it, he may prefer some other place, but that place is for the relevant time the place where he normally resides*.”

23. Mae darpariaethau tebyg i'r hyn a nodir yn adran 194 o Ddeddf 2014 wedi bod yn destun craffu barnwrol. Ystyriwyd bwriad y ddarpariaeth dybio a gynhwysir yn Neddf Cymorth Gwladol 1948 yn R (Kent County Council) v Secretary of State for Health [2015] EWCA Civ 81. Ym mharagraff 13, dyfarnodd y llys:

*The purpose of the deeming provision is to provide continuity of financial responsibility whilst a person is being provided with accommodation under section 21 of the 1948 Act. It is not uncommon for those who are eligible for such assistance, for practical reasons or reasons connected with securing their best interests, to be placed outside the area of the local authority with the statutory responsibility. The deeming provision avoids complications arising in connection with funding in those circumstances. It also avoids the possibility of a local authority placing someone outside its own area to ease its financial burdens.*

24. Yn R (Cornwall Council) v Secretary of State for Health and another [2015] UKSC 46, mynegodd y Goruchaf Lys (ym mharagraff 55) farn debyg yng nghyd-destun lleoliadau plant:

*It would run counter to the policy discernible in both Acts* (h.y. Deddf Gofal 2014 a Deddf Cymorth Gwladol 1948) *that the ordinary residence of a person provided with accommodation should not be affected for the purposes of an authority's responsibilities by the location of that person's placement. It would also have potentially adverse consequences. For some needy children with particular disabilities the most suitable placement may be outside the boundaries of their local authority, and the people who are cared for in some specialist settings may come from all over the country. It would be highly regrettable if those who provide specialist care under the auspices of a local authority were constrained in their willingness to receive children from the area of another authority through considerations of the long term financial burden which would potentially follow.*

25. Mae'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddf 2014 yn nodi mewn perthynas ag adran 194:

> *504.Mae is-adran (1) yn nodi pryd y mae oedolyn i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer, os yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu ei anghenion am ofal a chymorth yn gwneud trefniadau i'r oedolyn fyw mewn llety o fath penodol. O ganlyniad i'r trefniadau hyn, mae'n bosibl y bydd yr oedolyn yn symud i ardal arall. Yn y sefyllfa hon, effaith y ddarpariaeth hon yw y caiff yr oedolyn ei drin, at ddibenion y Ddeddf hon, fel pe bai'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol a wnaeth y trefniadau (ac nid yn yr ardal y mae wedi symud iddi).*
>
> *509.Mae'r ddarpariaeth a wneir gan yr adran hon yn seiliedig ar ddarpariaeth a wnaed yn adran 24 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ac adran 105 o Ddeddf Plant 1989*

26. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Rheoliadau Llety Penodedig yn cadarnhau:

> *Pan fo gan oedolyn anghenion am ofal a chymorth na ellir eu diwallu ond drwy fyw mewn llety o fath penodedig a'i fod yn byw mewn llety o fath penodedig yng Nghymru, mae'r oedolyn i'w drin (yn rhinwedd adran 194(1) o'r Ddeddf) fel un sy'n preswylio fel arfer yn yr ardal lle'r oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn iddo ddechrau byw yn y math penodedig o lety.*

27. Mae'r adrannau perthnasol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 11 Cod Ymarfer (Amrywiol a Chyffredinol) ("y Cod Ymarfer"), a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2014, yn datgan fel a ganlyn:

*Mae is-adran (1) yn nodi pryd y mae oedolyn i'w drin fel pe bai'n preswylio fel arfer, os yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu ei anghenion am ofal a chymorth yn gwneud trefniadau i'r oedolyn fyw mewn llety o fath penodol. O ganlyniad i'r trefniadau hyn, mae'n bosibl y bydd yr oedolyn yn symud i*

*ardal arall. Yn y sefyllfa hon, effaith y ddarpariaeth hon yw y caiff yr oedolyn ei drin, at ddibenion Deddf 2014, fel pe bai'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol a wnaeth y trefniadau (ac nid yn yr ardal y mae wedi symud iddi).*

*Preswylfa arferol wrth drefnu llety mewn ardal arall*

*Bydd yna rai achosion lle bydd yr awdurdod lleol o'r farn y gellid diwallu anghenion gofal a chymorth person trwy ddarparu llety yn ardal awdurdod arall. Os bydd gan y person anghenion sydd ond yn gallu cael eu diwallu trwy fathau penodol o lety, bydd gan y person hwnnw yr hawl i wneud dewis ynglŷn â'i lety, yn ogystal â chymryd rhan yn y broses gynllunio. Mae'r hawl hon yn galluogi'r person i wneud dewis ynglŷn â mathau penodol o lety, gan gynnwys lle mae'r llety hwn wedi'i leoli yn ardal awdurdod arall. Cyn belled â bod amodau penodol yn cael eu bodloni, rhaid i'r awdurdod lleol drefnu'r llety y mae'r person wedi'i ddewis. (Gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015 a'r codau ymarfer mewn perthynas â Rhannau 4 a 5 ar daliadau uniongyrchol, dewis o lety, asesiad ariannol a chodi ffioedd).*

*Bydd hyn yn golygu y bydd hi'n ofynnol i awdurdodau lleol, o dan rai amgylchiadau, drefnu llety a leolir mewn ardal wahanol. Yn ogystal, bydd yna sefyllfaoedd eraill lle bydd awdurdod lleol yn dewis trefnu llety i berson mewn ardal arall gan fod hynny wedi'i gytuno gyda'r person dan sylw. Mewn achos o'r fath, dylai fod yn glir pa awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am ddiwallu anghenion y person yn y dyfodol.*

*… os oes gan oedolyn anghenion sydd ond yn gallu cael eu diwallu trwy ddarparu llety cartref gofal, ac os trefnir y llety yn ardal awdurdod lleol arall, bod yr egwyddor o "farnu" preswylfa arferol yn berthnasol. Felly, bydd yr oedolyn yn cael ei drin fel petai'n dal i fyw yn yr ardal lle'r oedd yn byw cyn i'r lleoliad ddechrau. Canlyniad hyn yw y bydd yr awdurdod lleol sy'n trefnu'r llety yn dal i fod yn gyfrifol am ddiwallu anghenion y person, ac ni fydd y cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r awdurdod y mae'r llety wedi'i leoli yn ei ardal. Bydd cyfrifoldeb yr awdurdod 'lleoli' yn parhau fel hyn cyhyd ag y bydd anghenion yr oedolyn yn cael eu diwallu gan y math penodedig o lety.*
*…*
*Mae'r egwyddor o "farnu" preswylfa arferol yn berthnasol fel arfer pan fydd yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu'r llety yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r egwyddor yn berthnasol hefyd lle mae person yn derbyn taliad uniongyrchol ac yn trefnu ei ofal a'i gymorth ei hun. Mewn achosion o'r fath, yr unigolyn fydd yn dewis sut y bydd ei anghenion yn cael eu diwallu, ac yn trefnu ei ofal a'i gymorth ei hun. Os yw'r cynllun gofal a chymorth yn nodi y bydd anghenion y person ond yn gallu cael eu diwallu os yw'r oedolyn yn byw mewn llety cartref gofal, ac os yw'r person yn dewis trefnu'r llety hwnnw yn ardal awdurdod lleol gwahanol i'r un sy'n gwneud y taliad uniongyrchol, bydd yr un egwyddor yn berthnasol – h.y. bydd yr awdurdod lleol sy'n diwallu anghenion gofal a chymorth y person trwy wneud taliad uniongyrchol yn cadw'r cyfrifoldeb. Fodd bynnag, os dewisodd y person lety sydd y tu allan i'r hyn a nodir yn y cynllun gofal a chymorth neu fath o lety na nodwyd yn y rheoliadau (er enghraifft, os yw'r person yn symud i mewn i drefniant bywydau a rennir neu lety byw â chymorth), ni fyddai'r egwyddor o "farnu" yn berthnasol.*

*Os pennir y gallai anghenion yr unigolyn gael eu diwallu orau trwy aros gyda'r gwasanaeth newydd, ac os bydd yr unigolion yn dewis aros yn y lleoliad hwnnw, bydd statws yr unigolyn yn newid o fod yn breswylydd cartref gofal i fod yn denant mewn llety byw â chymorth. Felly, bydd preswylfa arferol yr unigolyn wedi newid a bydd y cyfrifoldeb dros ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol lle mae'r unigolyn yn byw. Os penderfynir, yn dilyn ailasesiad, y bydd anghenion y person ond yn gallu cael eu diwallu trwy lety mewn cartref gofal, bydd angen i'r awdurdod lleol lleoli drefnu lleoliad cartref gofal gwahanol ar gyfer y person hwnnw. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y darpariaethau barnu yn dal i fod yn berthnasol a bydd y cyfrifoldeb dros ddiwallu anghenion gofal a chymorth y person hwnnw yn aros gyda'r awdurdod lleoli.*

28. Mae Atodiad 2 i'r Cod Ymarfer, yng nghyd-destun lleoliadau trawsffiniol, yn cynnwys y canlynol:

*Lleoliadau a drefnir gan yr unigolion eu hunain*

*Nid yw'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i unigolion sy'n trefnu eu gofal eu hunain. Bydd unigolion sy'n trefnu ac yn talu am eu gofal eu hunain fel rheol yn dod yn breswylydd fel arfer yn yr ardal y maent yn symud iddi ac yn gyfrifoldeb yr ardal honno. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i unigolion sy'n talu am eu gofal preswyl eu hunain os yw awdurdod lleol yn trefnu'r gofal hwnnw..*

Cyflwyniadau cyfreithiol y partïon

29. Mae ALl1 yn haeru:
    a. Mae X yn parhau i breswylio'n arferol yn ardal ALl2 gan fod y ddarpariaeth dybio yn gymwys.
    b. nid yw cymhwysiad y ddarpariaeth dybio yn cael ei bennu gan y cwestiwn ‘a oedd gan’ X anghenion gofal a chymorth adeg ei rhyddhau o'r ysbyty, neu a oedd ALl2 wedi ‘trefnu’ lleoliad X yn y Cartref Gofal.
    c. Dylid cymhwyso'r dehongliad a ddarperir mewn dyfarniad gan Weinidogion Cymru dyddiedig 9 Chwefror 2021 i'r dyfarniad hwn.

30. Mae ALl2 yn dadlau:
    a. Nid yw'r ddarpariaeth dybio yn gymwys:
        i. Gan fod X yn gallu diwallu ei hanghenion gofal a chymorth ei hun (gyda chymorth ei theulu) heb gyfranogiad ALl2.
        ii. Ni threfnodd ALl2 y llety penodedig yn ardal ALl1.
        iii. nid oedd penderfyniad wedi'i wneud bod gan X anghenion am ofal a chymorth na ellid eu diwallu ond os oedd yn byw mewn llety penodol cyn iddi symud i'r Cartref Gofal, a oedd "*o'i hewyllys ei hun*" a'r tu allan i'r hyn a nodwyd mewn unrhyw gynllun gofal a chymorth.
    b. Mae X yn preswylio’n arferol yn ALl1.

Cymhwyso'r gyfraith i'r achos hwn

31. Nid oes unrhyw ddadl bod gan X, ar sail cwblhau'r Asesiad Integredig ar 4 Tachwedd 2024, anghenion gofal a chymorth na ellir eu diwallu ond drwy fyw mewn cartref gofal. Cydnabyddir ei bod yn preswylio'n arferol yn ALl2 yn union cyn iddi gael ei derbyn i'r ysbyty a'i rhyddhau i'r Cartref Gofal yn ALl1 ar 26 Ionawr 2023 lle mae'n dal i breswylio.

32. Nid yw'n glir a oedd gan X anghenion na ellid eu diwallu ond drwy fyw mewn cartref gofal cyn yr Asesiad Integredig ac yn benodol, ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'r ysbyty pan ddechreuodd breswylio yn y Cartref Gofal yn ALl1 gan na chynhaliwyd unrhyw asesiad o anghenion gofal a chymorth ar y pryd.

33. Cytunir bod gan X y galluedd angenrheidiol i benderfynu ble i fyw a'i bod hi a'i theulu wedi trefnu'r lleoliad preswyl yn y Cartref Gofal ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'r ysbyty. Nid oedd y lleoliad preswyl yn cynnwys ymgysylltu ag ALl2 ac ni chafodd ei wneud yn unol ag unrhyw ddarpariaethau mewn cynllun gofal a chymorth.

34. Y cwestiwn allweddol yn achos X yw a yw'r ddarpariaeth dybio yn gymwys er mwyn cynnal ei phreswylfa arferol yn ardal ALl2 neu i'r gwrthwyneb, a yw'r ddarpariaeth dybio ddim yn gymwys, ac, o ddefnyddio prawf Shah, ei bod wedi bod yn preswylio'n arferol yn ardal ALl1.

35. Mae adran 194 o Ddeddf 2014 wedi'i gosod yng nghyd-destun Deddf sy'n darparu dyletswyddau a swyddogaethau statudol yr awdurdodau lleol. Er nad yw adran 194 yn cyfeirio'n benodol at y ddarpariaeth dybio sy'n gymwys pan fo awdurdod lleol yn ymwneud â threfnu llety penodedig i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn, o

ystyried y ddarpariaeth berthnasol yng nghyd-destun y Ddeddf yn ei chyfanrwydd, mae'r dehongliad hwn yn ddilys.

36. Yn wir, o edrych ar eiriad is-adran (1) i adran 194, mae'r amod bod rhaid bod "*...gan oedolyn anghenion am ofal a chymorth nad oes modd eu diwallu ond os yw'n byw mewn llety o fath a bennir mewn rheoliadau*" yn rhagflaenu'r gofyniad cyfunol bod "*...yr oedolyn yn byw mewn llety yng Nghymru o fath a bennir felly,*" gan nodi'n rhesymegol, er mwyn i'r ddarpariaeth fod yn gymwys, y dylai dyfarniad o ran a oes gan oedolyn anghenion o'r fath na ellir eu diwallu mewn cartref gofal yn unig fod yn hysbys cyn i'r oedolyn ddechrau byw yn y llety penodedig mewn gwirionedd. Yng nghyd-destun y Ddeddf, mae'n amlwg y byddai'r dyfarniad hwn o ran anghenion yr unigolyn yn cynnwys yr awdurdod lleol 'gosod' perthnasol.

37. Symudodd X, gyda'r gallu i ddewis ble i fyw, o fyw'n annibynnol i'r Cartref Gofal cyn i asesiad (sy'n cynnwys ALl2) gael ei wneud yn penderfynu na ellid diwallu ei hanghenion am ofal a chymorth ond drwy fyw mewn llety penodol ac felly ni all y ddarpariaeth dybio fod yn gymwys.

38. Mae'r Nodyn Esboniadol i Ddeddf 2014 mewn perthynas ag adran 194 yn cynorthwyo drwy roi arwydd o ddiben sylfaenol y ddarpariaeth dybio, sef creu system lle nad yw'r awdurdodau lleol yn osgoi cyfrifoldeb ariannol trwy drefnu i unigolion gael eu lleoli y tu allan i'w hardaloedd eu hunain. Mae hyn yn adlewyrchu'r dehongliad a roddwyd gan y farnwriaeth mewn perthynas â darpariaethau tybio tebyg yn achosion Cyngor Sir Caint a Chyngor Cernyw. Nid yw ffeithiau'r achos hwn yn dangos bod ALl2 wedi mynd ati i alw am gymhwyso'r darpariaethau tybio at y diben arfaethedig.

39. Gan gyfeirio at y ddarpariaeth dybio, defnyddir y term "*trefnu*" yn gyson yn y Cod Ymarfer ynghyd ag ymadroddion fel "*pan fo'r awdurdod lleol yn ystyried ei fod yn briodol*", "*os bydd yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth yn gwneud trefniadau* ", "*bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ... drefnu llety ...".* Mae'r pwyslais clir ar gyfranogiad awdurdodau lleol yn y gwaith o drefnu llety penodol yn atgyfnerthu diben y ddarpariaeth dybio i osod cyfrifoldeb ariannol pan fo awdurdod lleol â chyfrifoldeb statudol yn ymwneud â threfnu'r lleoliad y tu allan i'r ardal.

40. Mae'r Cod Ymarfer yn rhag-weld sefyllfa yn benodol lle mae'r ddarpariaeth dybio yn cael ei datgymhwyso pan fydd unigolyn yn arfer dewis i fyw y tu hwnt i ffin awdurdod lleol y tu allan i ddarpariaethau cynllun gofal a chymorth. Mae'r Cod Ymarfer yn glir hefyd fod y ddarpariaeth dybio yn cael ei datgymhwyso yn y senario tebyg lle mae person yn trefnu lleoliad trawsffiniol ac yn talu amdano ei hunan.

41. Nid oedd gan X gynllun gofal ar gyfer gofal a chymorth gydag ALl2. Ni chafodd ei rhoi yn y Cartref Gofal gan yr awdurdod ac nid oedd ALl2 ychwaith yn rhan o drefnu ei lleoliad. Drwy benderfynu symud i'r Cartref Gofal yn annibynnol ar ALl2, (gan ddefnyddio geiriau'r Arglwydd Scarman ar gyfer prawf Shah) mabwysiadodd hi'r Cartref Gofal yn wirfoddol ac at ddiben sefydlog ac fe ddechreuodd breswylio'n arferol yn ardal ALl1.

42. Mae dyfarniad Gweinidogion Cymru dyddiedig 9 Chwefror 2021 yn gymwys mewn ffordd gyfyngedig yn unig i sefyllfa X. Roedd y dyfarniad yn seiliedig ar set o ffeithiau gwahaniaethol i'r rhai sy'n gymwys yn yr achos hwn. Yn arwyddocaol, yn wahanol i'r

achos a ystyriwyd yn y dyfarniad ar 9 Chwefror 2021, mae gan X y gallu angenrheidiol i benderfynu ble i fyw ac mae prawf Shah yn gymwys heb gael ei addasu, ac nid yw ALl2 wedi gweithredu i raddau a fyddai'n sbarduno'r ddarpariaeth dybio h.y. cyn penderfyniad X i symud i'r Cartref Gofal, nid oedd unrhyw asesiad o anghenion gofal a chymorth wedi'i sefydlu; nid oedd unrhyw drefniant contractiol yn ymwneud ag ALl2 ac nid yw'r Cartref Gofal ac ALl2 wedi cynnal unrhyw adolygiadau na monitro gofal mewn perthynas ag X yn y Cartref Gofal.

<u>Dyfarniad</u>

43. Am y rhesymau a nodir uchod, mae Gweinidogion Cymru wedi dyfarnu:
    a. nad yw'r ddarpariaeth dybio o dan adran 194 o Ddeddf 2014 yn gymwys;
    b. ar ôl penderfynu symud i'r Cartref Gofal ar ôl cael ei rhyddhau o'r ysbyty ar 26 Ionawr 2023, y dechreuodd X breswylio yn arferol yn ardal ALl1;
    c. mai ALl1 biau'r cyfrifoldeb dros ariannu ei gofal ar ôl cyrraedd y trothwy cymhwysedd o dan adran 35 o Ddeddf 2014.

Dyddiedig: 3 Ebrill 2025

Llofnodwyd gan:

Ar ran Gweinidogion Cymru.